# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 09-09 (p2) : 26 Mawrth 2009**

## Datganiad Ysgrifenedig gan Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Teitl: Y Fenter Trefi Teithio Cynaliadwy**
**Dyddiad: 10 Mawrth 2009**
**Gan: Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Mae'n bleser gen i roi'r newyddion diweddaraf am fy nghynlluniau i fwrw ymlaen â'r fenter Trefi Teithio Cynaliadwy yng Nghymru.

Gall Trefi Teithio Cynaliadwy ddarparu buddion ecolegol yn ogystal â manteision eraill megis newid moddol, llai o dagfeydd a llygredd, trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uwch, gwell mynediad at wasanaethau allweddol a ffyrdd o fyw iachach wrth i bobl feicio a cherdded mwy.

I fwrw ymlaen â'r fenter hon, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Chyngor Dinas Caerdydd i ddatblygu cynllun braenaru penodol ar gyfer Caerdydd i ddechrau – ardal drefol eang gyda llawer o draffig cymudwyr. Rhodir rhagor o fanylion am hyn yn eu tro. Wedi hynny, byddwn yn datblygu cyfres o drefi teithio cynaliadwy wedi'u cysylltu â setliadau allweddol eraill.

Bydd y dull gweithredu hwn yn caniatáu inni dreialu amryw o fesurau ac ymyriadau cydategol mewn modd targededig. Trwy adeiladau ar y gwersi a ddysgir ym mhob tref wrth i'r fenter ddatblygu, a thrwy rannu profiadau, byddwn yn gallu nodi'r mesurau mwyaf effeithiol i'w mabwysiadu mewn mannau eraill. Bydd datblygu amrywiaeth o fesurau wedi'u teilwra fel hyn yn ein galluogi i fod yn llawer mwy effeithiol o ran sicrhau gostyngiad yn yr allyriadau $CO_2$.